Eglurhad technegol CNC ar gyfer Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd

Adolygiad o Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol (Cymru) 2021

11 Tachwedd 2021. Ar gyfer unrhyw bwyntiau pellach o eglurhad, cysylltwch â Mark Squire, Rheolwr Dŵr Cynaliadwy CNC.

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010 yn ystod 2015 a Rheoliadau Atal Llygredd Nitradau 2013 yn ystod 2016, a chyflwynwyd Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) ar 1 Ebrill 2021 gyda chyfnodau pontio ar waith tan 2024.

Yn sgil cyflwyno'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, dirwymwyd y rheoliadau Atal Llygredd Nitradau yn syth, a bydd hyn, dros amser, yn dirymu'r holl fesurau o fewn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd) (Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol) (Cymru) 2010.

Mae'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn cynnwys y mesurau canlynol a grynhoir fel:

- amodau gosodedig lle gellir lledaenu unrhyw ddeunydd gwrtaith.
- ei gwneud yn ofynnol i gyfyngu elifion slyri a silwair
- nodi gofynion capasiti ac adeiladu ar gyfer storio tail organig a silwair
- gosod rheolaethau ar gyfer cymwysiadau nitrad o ddeunydd gwrtaith organig ac anorganig
- gosod cyfyngiadau ar gyfer cyfanswm llwytho nitrogen ar lefel fferm a chae,
- ei gwneud yn ofynnol cael cynllun nitrogen ysgrifenedig a chofnodi'r swm a ledaenir.

Byddai cydymffurfiaeth â'r mesurau Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn achosi lleihad mewn ystod o lygryddion, gan gynnwys nitradau, ffosfforws, amonia ac ocsid nitraidd sy'n cael effaith ar ansawdd dŵr, ansawdd aer, newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth.

<u>Adolygiad dynodiadau y Gyfarwyddeb Nitradau</u>
Cynhaliwyd adolygiad CNC, a oedd yn ofynnol gan y Gyfarwyddeb Nitradau bryd hynny, gan ddefnyddio methodolegau cyhoeddedig ar gyfer dŵr wyneb, daear ac ewtroffig, ac argymhellwyd dynodi 8% o arwynebedd Cymru fel isafswm arwynebedd.

Roedd adolygiad CNC mewn ymateb i ofynion y Gyfarwyddeb Nitradau yn unig ac nid ystyriwyd gyrwyr eraill, megis cyrff dŵr a oedd yn methu â chyflawni statws da gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, afonydd dynodedig ACA yn methu eu targedau ffosffadau, safleoedd sensitif yn mynd tu hwnt i drothwyon amonia ac ati, gan nad yw'r rhain wedi eu cynnwys yn y fethodoleg.

Ni ail-ddynodwyd y dynodiad Parth Perygl Nitradau blaenorol a elwir y Ffynnon Fawr yn 2013 yn dilyn rhaglen arolygu gynhwysfawr a nododd ac a orfododd nifer o

arferion anghyfreithlon ac amgylcheddol niweidiol yn ymwneud â storio a lledaenu tail organig

Mae CNC yn deall nad yw'r Alban wedi ail-ddynodi ardaloedd sylweddol o Barthau Perygl Nitradau. Mae'r fethodoleg gyhoeddus yn ystyried yr ymateb tymor hir i ddŵr daear, yn enwedig i fesurau i leihau nitradau.

Mae'n bwysig nodi bod sefydlu tueddiadau dibynadwy mewn crynodiadau nitradau yn anodd dros gyfnodau o lai na 20-30 mlynedd, gan y gallai amrywiadau tymor byrrach adlewyrchu amrywiadau hinsoddol yn hytrach nag arferion rheoli tir.

Mae CNC yn monitro ansawdd dŵr ar gyfer sawl gyrrwr, y Gyfarwyddeb Nitradau yn un ohonynt, ond caiff maetholion a sylweddau eraill eu monitro at ddibenion eraill ledled Cymru.

Defnyddir dulliau didoli slyri i gynyddu'r capasiti yn y storfa slyri drwy dynnu tuag 20% o'r deunydd solid. Diffinnir yr hylif canlyniadol fel slyri o dan y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a bydd yn destun i'r cyfnod dim lledaenu pan mae'r holl fesurau'n cael eu gweithredu'n llawn. Mae defnyddio'r ganran solid fel deunydd oddi tan anifeiliaid yn destun i reoliadau eraill.

Mesurau lledaenu ar dir

Mae'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn ei gwneud yn ofynnol i arolygiad maes gael ei gynnal i sicrhau bod amodau yn addas ar gyfer lledaenu'r deunyddiau gwrtaith ar y tir.

Dim ond pan mae amodau pridd a thywydd yn briodol y dylid lledaenu unrhyw ddeunyddiau gwrtaith ar dir, a phan mae angen y maetholion sydd ynddynt ar y cnydau.

Cyfnodau dim lledaenu a chyfyngiadau ar unwaith wedyn

O dan Reoliad 21 y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, mae yna gyfyngiadau ar gyfaint y slyri y gellir ei ddefnyddio yn syth ar ôl y cyfnod dim lledaenu ar gyfer gwrtaith organig â nitrogen hawdd ei gyrchu.

Hefyd yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, mae'n ofynnol i ffermwyr gydymffurfio â mesurau eraill gan gynnwys, er enghraifft, amodau lledaenu a gofynion cnydau.

Mesurau amgen

Yn unol â gofynion Rheoliad 44 "i leihau neu atal llygredd dŵr o ffynonellau amaethyddol", mae Rheoliad 45 o'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn rhoi'r cyfle i unrhyw un ei gyflwyno'i hun o fewn 18 mis i'r rheoliadau yn dod i rym gyda chyfres o fesurau amgen i gyflawni'r canlyniadau sy'n ofynnol gan y rheoliadau hyn.
Mae CNC yn deall y byddai unrhyw fesurau amgen o'r fath a dderbynnir a'u gweithredir gan Lywodraeth Cymru hefyd yn rheoleiddiol, nid yn wirfoddol.

Mae mesurau gwirfoddol megis Codau Ymarfer Amaethyddol Da, sydd wedi bod ar waith ers degawdau, wedi methu â darparu gwell ansawdd dŵr yn ymarferol. Mae'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn dod â llawer o argymhellion Codau Ymarfer Amaethyddol Da o fewn rheoleiddio.

Comisiynodd yr Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar gyfer Llygredd Amaethyddol y Safon Dŵr sydd yn dal yn cael ei ddatblygu, a byddai'n ddull gwirfoddol yn ymarferol.

Adnoddau

Bydd yr adnoddau ychwanegol sy'n ofynnol gan CNC i gyflawni'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn ddibynnol ar y lefel amlder arolygiad sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru. Mae CNC wedi cynnal cyfrifiadau ac wedi darparu ffigurau dangosol i Lywodraeth Cymru. Mae trafodaethau yn parhau.

Niferoedd llygredd adroddedig

Mae CNC yn cofnodi digwyddiadau a adroddwyd ar y System Cofnodi Digwyddiadau Cymru. Daw'r data isod o'r system hon.



Mae'r graff yn dangos y digwyddiadau llygredd a adroddwyd ac a gadarnhawyd sy'n cael effaith ar ddyfroedd wyneb fesul sector o 2016 tan 24 Medi 2021. Mae'r data yn nodi mai'r sector amaethyddol a'r diwydiant dŵr yw'r cyfranwyr mwyaf at y llygredd a adroddwyd ac a gadarnhawyd i CNC.

Dosberthir nifer fawr o ddigwyddiadau fel 'Ni Nodwyd y Safle', a dyma lle mae'r digwyddiad llygredd wedi'i gadarnhau gan staff CNC, ond nad yw'r ffynhonnell wedi'i nodi.

O ganlyniad i natur fyrhoedlog rhai digwyddiadau llygredd, oedi mewn adrodd ac amgylchiadau eraill tu hwnt i reolaeth CNC, nid yw bob amser yn bosibl nodi ffynhonnell y llygredd. Byddai'r adroddiadau hyn yn aros heb eu cadarnhau ac nid ydynt yn ymddangos ar y graff uchod.

Mae cwmnïau dŵr yn gyfrifol am hunanadrodd am ddigwyddiadau llygredd i CNC a'u cofnodi ar y System Cofnodi Digwyddiadau Cymru. Caiff y rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn y diwydiant dŵr eu hunanadrodd, gan gynnwys y rhai gyda photensial o lygru ond efallai na fyddant yn arwain at effaith amgylcheddol. Dylid ystyried y cynnydd posibl hwn o ddigwyddiadau a adroddwyd gan y diwydiant dŵr mewn unrhyw gymariaethau o achosion sector.



	2001	2002	2003	2004	2005	2006	2007	2008	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018	2019	2020	2021
Horticulture	1	1	0	0	0	1	1	0	0	1	0	0	0	0	1	0	1	2	0	0	0
Pig	1	3	2	1	2	1	0	3	1	0	0	3	0	0	1	0	1	4	3	0	1
Fish Farming	1	0	1	0	2	1	0	1	0	2	1	0	1	1	0	0	0	0	0	0	0
Poultry	0	6	2	0	3	0	1	2	1	2	1	1	3	2	0	1	1	3	0	1	8
Equine	2	4	6	4	1	1	0	3	5	2	4	2	1	2	1	2	1	4	2	5	3
Non agri source	4	5	4	4	3	4	3	1	1	4	1	5	1	1	1	1	5	8	4	5	0
Arable	5	6	3	3	2	3	2	1	1	2	1	4	1	4	1	3	7	5	14	7	13
Forestry	1	1	1	3	6	1	1	0	2	0	2	7	4	2	2	2	2	0	0	0	0
Sheep	10	6	13	28	25	10	6	4	4	8	5	4	4	4	6	11	6	9	15	11	5
Other Agricultural Source	7	11	13	14	8	9	5	9	5	10	7	8	9	7	7	9	13	19	24	30	18
Beef	9	33	25	25	21	20	23	11	8	27	23	16	24	31	17	18	22	27	26	14	24
Unknown Source	31	32	41	38	53	31	18	17	22	23	17	36	13	26	30	19	7	7	6	4	4
Dairy	61	86	63	57	57	46	40	53	46	75	69	86	61	91	73	63	69	109	81	75	46
Total	133	194	174	177	183	128	101	105	96	156	131	172	122	171	140	129	135	197	175	152	122

Mae'r graff yn dangos digwyddiadau llygredd y sector amaethyddol a adroddwyd ac a gadarnhawyd rhwng 2001 a Medi 2021. Mae'r data hwn wedi'i gyrchu o un o sefydliadau rhagflaenol CNC, System Cofnodi Digwyddiadau Cenedlaethol Asiantaeth yr Amgylchedd ac o System Cofnodi Digwyddiadau Cymru CNC.

Yn ystod 2001, 2020 a 2021, mae'n bosibl na fydd data yn hollol gynrychiadol o ganlyniad i ffactorau allanol (clwy’r traed a’r genau a COVID-19). Mae data yn nodi bod y mwyafrif o'r digwyddiadau llygredd yn digwydd yn y sector llaeth. Ers 2018, mae'r data yn nodi gostyngiad bach yn nifer y digwyddiadau llygredd a adroddwyd ac a gadarnhawyd yn y sector amaethyddol.

Nid oes gan CNC y data ar hyn o bryd i nodi nifer y digwyddiadau amaethyddol sy'n berthnasol i'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a ddigwyddodd o fewn y Parthau Perygl Nitradau a ddynodwyd yn flaenorol.

Mae nifer y digwyddiadau llygredd a adroddwyd ac a gadarnhawyd yn codi o sawl ffynhonnell ac achos. Fodd bynnag, mae'r nifer helaeth o ddigwyddiadau llygredd yn aros heb eu hadrodd gan ei bod yn bosibl nad ydynt yn achosi effaith weledol neu'n ymddangos fel digwyddiad llygredd. Mae'r digwyddiadau llygredd a adroddir arnynt yn tueddu i fod yn ddigwyddiadau yn y tarddle lle mae'r digwyddiadau na adroddwyd yn tueddu i fod yn wasgaredig.